

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Gorffennaf 2021

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	Dim.
2	DATGAN CYSYLLTIAD	Datganodd y Cyngorydd Melvyn Mile gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – Cynllun Gwella Heol y Castell Llangollen 2020 gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Llangollen.
3	MATERION BRYD	Ailddatblygiad arfaethedig o hen Safle Llyfrgell Prestatyn - cymeradwyaeth i ddechrau'r broses dendro (ystyriwyd y mater hwn fel rhan o'r Adroddiad Cyllid o dan eitem 6 ar yr agenda)
4	COFNODION	PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.
5	PROSIECT GWELLA HEOL Y CASTELL, LLANGOLLEN, 2020	<p>PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –</p> <p>(a) cymeradwyo gweithredu Prosiect Gwella Heol y Castell Llangollen 2020, yn cynnwys y diwygiadau a geir yn Atodiad A a wnaethpwyd yn dilyn ymgysylltu â'r cyhoedd a chyda cytundeb aelodau lleol, ac yn</p> <p>(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad C) fel rhan o'i ystyriaethau.</p>
6	ADRODDIAD CYLLID	<p>PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –</p> <p>(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac yn</p> <p>(b) cymeradwyo cychwyn proses dendro mewn perthynas ag ailddatblygiad hen lyfrgell Prestatyn a chodi 14 rhandy un ystafell wely rhent cymdeithasol a dwy uned fasnachol ar y llawr gwaelod.</p>
7	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET	PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Gorffennaf 2021

Agenda Item No	Topic	Decision
---------------------------	--------------	-----------------
